

Cyfenw	Rhif y Ganolfan	Rhif yr Ymgeisydd
Enw(au) cyntaf		4



LEFEL 2

GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: CRAIDD Unedau 001/003 Sasha Set B

Cwestiwn	Marc Uchaf	Marc yr Aseswr
1.	3	
2.	4	
3.	2	
4.	5	
5.	3	
6.	3	
7.	3	
8.	4	
9.	3	
Cyfanswm	30	

5952N1013B2
01

Sylwadau'r Aseswr:
Llofnod IQA:
Dyddiad:

Senario – Sasha

Mae Sasha wedi cwblhau ei chymhwyster gofal plant lefel 3 yn ddiweddar, ac mae wedi cael ei gwahodd am gyfweiliad yng Nghylch Meithrin Plantos yn ei hardal leol.

Mae'r gwahoddiad yn esbonio bod 2 gam i'r broses gyfweld: sesiwn ymarferol a sesiwn cwestiynau ffurfiol.

Mae Cylch Meithrin Plantos yn lleoliad cyfrwng Cymraeg sy'n cael ei redeg gan bwyllgor gwirfoddol o rieni a phobl o'r gymuned leol. Mae'r pwyllgor hefyd yn aelodau o'r Mudiad Meithrin, sef y mudiad ymbarél cenedlaethol ar gyfer gofal plant cyfrwng Cymraeg sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth. Maen nhw i gyd yn cydweithio er mwyn sicrhau bod trochi (*immersion*) cyfrwng Cymraeg yn ganolog i'r hyn mae pob Cylch Meithrin yn ei gynnig. Maen nhw hefyd yn ymfalchïo yn y ffaith bod plant a staff yn rhan ganolog o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae Sasha yn cyrraedd ar gyfer y cyfweiliad ffurfiol â'r rheolwr, Jody, sy'n gofyn nifer o gwestiynau iddi er mwyn sicrhau bod Sasha'n addas i'r rôl. Yna mae'n rhaid iddi dreulio awr o'i chyfweiliad gyda'r plant a'r staff.

Mae'r pwyllgor, y staff a'r plant i gyd yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau wrth gyflogi aelodau newydd i'r tîm, ac maen nhw i gyd yn gadarnhaol am Sasha. Mae hi'n cael cynnig swydd. Bydd hi ar gyfnod prawf am 6 mis, ac os bydd hi'n pasio'r cyfnod prawf, bydd y swydd yn un barhaol. Mae hi'n cael pecyn sefydlu (*induction pack*) sy'n cynnwys polisiâu'r cwmni, disgrifiad swydd a chontract. Mae angen iddi ddarllen y wybodaeth sydd wedi'i rhoi a llofnodi a dyddio'r dogfennau cyn dychwelyd i'r lleoliad i ddechrau gweithio yno.

Pan mae Sasha yn dechrau, mae hi'n mynd drwy gyfnod sefydlu llawn. Mae hyn yn cynnwys astudio polisiâu a gweithdrefnau'r cwmni, trafod disgwyliadau'r swydd, yr egwyddorion sy'n sail i ymarfer, asesiad risg o'r safle, gweithdrefnau diogelwch tân a chael ei chyflwyno'n llawn i blant Cylch Meithrin Plantos.

Mae Sasha yn cael ei hatgoffa o'r polisi cyfrinachedd a'r systemau storio gwybodaeth sy'n helpu i sicrhau diogelwch gwybodaeth. Cyn i'r staff ddechrau gweithio gyda'r plant, mae'n rhaid i'r rheolwyr sicrhau bod yr holl staff yn deall eu cyfrifoldebau proffesiynol.

Ar ail ddiwrnod Sasha, mae hi'n cael ei rhoi mewn pâr gyda Ben, aelod arall o staff yn y Cylch Meithrin. Bydd hyn yn cefnogi Sasha ac yn ei helpu i deimlo'n gartrefol a theimlo bod croeso iddi. Mae Sasha a Ben yn cyfathrebu yn y Gymraeg. Mae Sasha yn parhau i weithio ochr yn ochr â Ben ac yn ei arsylwi am yr wythnos er mwyn iddi ddod yn ddigon hyderus i wneud rhai o'r tasgau ar ei phen ei hun.

Mae Sasha nawr yn dechrau'r ail wythnos o weithio yn y Cylch Meithrin ac mae rhywun wedi gofyn iddi baratoi'r ardal chwarae rôl gan ddilyn y cynllunio sydd ar y wal. Mae'r cynllunio'n cael ei gwblhau bob wythnos yn ystod cyfarfod tîm lle mae'n rhaid i'r holl staff fod yn bresennol. Mae gofyn i bob aelod o staff gyfrannu syniadau ar gyfer cynllunio amgylcheddau a gweithgareddau. Mae arsylwadau'n cael eu defnyddio hefyd i sicrhau bod unrhyw weithgareddau'n bodloni anghenion y plant. Mae Sasha yn teimlo'n hyderus i wneud hyn yn dilyn y gefnogaeth mae hi wedi'i chael gan Ben.

Mae Sasha yn cyfathrebu'n dda ag aelodau'r tîm drwy gyfarfodydd tîm, sesiynau un i un, nodiadau arsylwi a thrafodaethau o ddydd i ddydd. Mae gofyn iddi hefyd fyfyrto (*reflect*) ar ei hymarfer er mwyn gwella.

Erbyn hyn, mae Sasha wedi cwblhau'r cyfnod prawf 6 mis ac mae'n cael ei gwahodd i gyfarfod goruchwylio. Mae Sasha yn cael dogfen goruchwylio sy'n gofyn iddi nodi ei phrofiadau dros y 6 mis diwethaf a'r pethau canlynol amdani hi ei hun: Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (*threats*).

Mae Sasha'n nodi ei bod hi wedi mwynhau ei 6 mis cyntaf a'i bod hi wedi cael croeso gan y rhan fwyaf o'r tîm. Yn yr adran Cyfleoedd, mae hi'n nodi y byddai hi'n hoffi cwblhau ei chymhwyster lefel 4 a chael hyfforddiant Cymraeg ychwanegol. O ran pryderon, mae hi'n nodi ei bod hi eisïau gwneud yn siŵr bod pob aelod o staff yn ei hoffi, gan fod un aelod o staff wedi bod ychydig yn angharedig (*unkind*) ar Facebook. Mae Jody'n gofyn am ragor o wybodaeth ynglŷn â hyn oherwydd gallai hyn fod yn enghraifft o dorri'r polisi cyfryngau cymdeithasol. Mae Sasha'n esbonio bod Sophie wedi ysgrifennu 'merch newydd yn y gwaith, annifyr (*annoying*), methu aros i adael y lle, staff annifyr a phlant annifyr!!!'. Mae Jody yn sicrhau Sasha ei bod hi wedi gwneud y peth iawn yn tynnu ei sylw at hyn. Mae Jody hefyd yn rhoi adborth cadarnhaol i Sasha am ei rôl.

Erbyn hyn, mae Sasha wedi bod yn y lleoliad am 10 mis arall. Mae hi wedi cofrestru ar gyfer y cymhwyster gofal plant lefel 4. Mae hi hefyd wedi bod yn mynychu hyfforddiant Cymraeg gyda'r Mudiad Meithrin sy'n rhoi mwy o hyder iddi yn ystod amser stori.

Mae Maxwell wedi ymgartrefu (*settled in*) yn dda yn y lleoliad. Mae gan Maxwell gyflwr o'r enw gorsymudedd (*hypermobility*) ac mae angen gweithiwr cefnogi un i un arno. Bydd angen i Sasha gymryd y rôl hanfodol hon nes bod modd cyflogi mwy o staff. Mae hyn yn cynnwys nodi arsylwadau am Maxwell, cadw at ffaith ac nid barn na beirniadaeth (*judgement*), a chysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol fydd yn dod i'r lleoliad. Mae Sasha yn cael copi o gynllun gofal Maxwell er mwyn iddi ddod i ddeall ei anghenion cymhleth. Bydd hyn yn ei galluogi i'w gefnogi yn y ffordd iawn. Mae gofyn iddi hefyd fynychu hyfforddiant ar rôl y gweithiwr un i un. Mae'r lleoliad yn gofyn i Sasha storio'r holl arsylwadau yn gyfrinachol. Mae ei rheolwr yn nodi pwysigrwydd rhannu'r wybodaeth hon â phersonél perthnasol.

Mae'n bwysig bod Sasha yn meithrin ymddiriedaeth (*trust*) Maxwell o'r cychwyn cyntaf. Mae hefyd yn bwysig meithrin perthnasoedd cadarnhaol â'r gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cefnogi Maxwell a'i rieni. Mae Sasha yn gwahodd y rhieni i'r lleoliad wrth i Maxwell ymgartrefu. Mae gan Sasha agwedd gadarnhaol drwy gydol y cyfarfod.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Cwestiynau Sasha: Set B

1. Mae myfyrio (*reflection*) yn un o'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i ymarfer ym maes gofal, dysgu a datblygiad plant yng Nghylch Meithrin Plantos.

(a) Enwch **un** egwyddor arall sy'n cael ei gweithredu yn y lleoliad. [1]

.....
.....

(b) Rhowch **ddau** reswm pam mae myfyrio yn bwysig yn y lleoliad. [2]

(i)

.....

(ii)

.....

2. Nodwch ffyrdd mae Cylch Meithrin Plantos yn sicrhau gweithio perthynas-ganolog ac esboniwch bwysigrwydd hyn. [4]

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

3. Disgrifiwch effaith agwedd gadarnhaol Sasha tuag at rieni Maxwell.

[2]

.....

.....

.....

.....

4. (a) Nodwch **ddwy** ffordd mae Sasha'n gweithio i wella ymarfer.

[2]

(i)

.....

(ii)

.....

(b) Crynowch (*summarise*) sut mae sesiynau goruchwylio wedi cefnogi datblygiad proffesiynol Sasha.

[3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

5. Esboniwch sut mae Cylch Meithrin Plantos yn meithrin ymddiriedaeth (*trust*) o fewn y gweithle.

[3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

6. Mae gwaith tîm effeithiol yn cael ei gydnabod yn Nghylch Meithrin Plantos. Disgrifiwch sut mae hyn yn cyfrannu at lesiant y plant. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

7. Mae'r lleoliad yn gofyn i Sasha storio cynlluniau gofal ac arsylwadau am Maxwell yn gyfrinachol a rhannu'r wybodaeth hon â phersonél perthnasol yn unig. Esboniwch pwy fyddai'n gallu gweld y wybodaeth hon. [3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

8. Trafodwch beth yw goblygiadau (*implications*) ymddygiad Sophie a'r sylwadau mae hi wedi eu gwneud ar y cyfryngau cymdeithasol. [4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

9. Mae pob lleoliad gofal plant a blynyddoedd cynnar yn cydweithio'n agos â gweithwyr iechyd proffesiynol i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol sy'n mynychu'r lleoliad.

(a) Nodwch **un** gweithiwr iechyd proffesiynol fyddai'n gallu gweithio gyda lleoliad blynyddoedd cynnar.

[1]

.....

.....

(b) Disgrifiwch rôl a chyfrifoldebau'r gweithiwr iechyd proffesiynol rydych chi wedi'i ddewis.

[2]

.....

.....

.....

.....

DIWEDD Y PAPUR

